# Y Theatr Gerddorol

## Perfformiad o ‘*Chwarae’n troi’n chwerw*’ gan Elain Llwyd

Darllenwch y geiriau mewn parau.

*Mae’th fywyd di yn ddedwydd*

*Rwyt ti’n fodlon ar dy fyd*

*Ond mae ‘na rywbeth bach yng nghefn dy ben*

*Sy’n dy boeni di o hyd*

*Ti’n syrthio mewn i’r fagl*

*Heb wybod be di be*

*A does dim ar ôl ond rhyw syniad ffôl*

*Yr aiff popeth nôl i’w le*

1. Pa fath o gymeriad sy’n canu’r gân?

______________________________

______________________________

______________________________

______________________________

______________________________

2. Ydy o’n bosib bod dau berson yn canu’r gân? Pam?

______________________________

______________________________

______________________________

______________________________

3. Sut fyddai'r gân yn addas ar gyfer darn dyfeisio?

Gwyliwch berfformiad **cyntaf** Elain o '*Chwarae'n troi'n chwerw*'.

4. Disgrifiwch y perfformiad gan feddwl am fynegiant wyneb a symudiadau.

5. Beth yw 'genre' y gân ?

6. Ydy Elain yn canu mewn arddull clir?

Gwyliwch **ail** berfformiad Elain o ‘*Chwarae’n troi’n chwerw*’.

7. Beth yw’r gwahaniaeth cyntaf y sylwch chi arno yn ail berfformiad Elain?

8. Rhowch nodiadau gyda geiriau’r gân i ddangos sut mae Elain yn eu perfformio. Cyfeiriwch at symudiadau, pwyslais ar eiriau, mynegiant wyneb ac ansawdd y llais.

*Mae’th fywyd di yn ddedwydd*

*Rwyt ti’n fodlon ar dy fyd*

*Ond mae ‘na rywbeth bach yng nghefn dy ben*

*Sy’n dy boeni di o hyd*

*Ti’n syrthio mewn i’r fagl*

*Heb wybod be di be*

*A does dim ar ôl ond rhyw syniad ffôl*

*Yr aiff popeth nôl i’w le*

9. Ydy'r ail berfformaid hyd yn hyn yn wahanol iawn i'r cyntaf? Sut mae'n wahanol?

10. Rhowch nodiadau gyda geiriau'r gân i ddangos sut mae Elain yn amrywio'r cytganau?

*Ac mae chwarae'n troi'n chwerw*

*Mae'r gwin yn troi'n sur*

*Mae'r wen yn troi'n ddagrau*

*A'r wefr yn troi'n gur*

*Ac os wyt ti'n rhywle*

*Yn gwrando ar fy nghân*

*Cofia bod chwarae'n troi'n chwerw*

*Wrth chwarae fo tân.*

11. Sut mae Elain yn adeiladau'r gân yn y 'middle eight' - 'Ma'th fywyd yn rhy fyr'?

12. Wedi gwylio'r gân disgrifiwch mewn ychydig o frawddegau gymeriad y person sy'n canu.

13. Pam nad yw Elain ddim yn symud llawer gan ddibynnu mwy ar symudiadau pen, dwylo a breichiau?

14. Pa fersiwn o'r gân sydd orau gennych a pham?

# Tasg

Eich tasg mewn grwpiau o 2- 5 yw i greu darn o theatr gerdd.

Y cam cyntaf yw dewis eich stori.

Gall fod yn un o’r canlynol:

- Stori Branwen yn Iwerddon
- Stori Blodeuwedd
- Stori Cantre’r gwaelod
- Hanes teulu yn gadael Tryweryn
- Taith y Mimosa
- Stori Dwynwen
- Hanes Gelert
- Hanes teulu yn Senghennydd yn 1913.

Y Cynnwys

Fe fydd angen;

1. stori glir
2. stori sydd yn cynnig rhannau difrifol a rhannnau mwy ysgafn
3. 2 - 4 cân ond nid oes rhaid canu pob cân yn gyfan
4. deialog sydd yn symud y stori ymlaen - mae’n bosib llefaru geiriau heb ganu
5. gwrthdrawiad
6. llwyfanu’r darn gyda set syml.

Nid oes angen poeni am oleuo.